Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Non Neave
Ysgol Hen Heol
Hen Heol
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3HW

24/06/2025

Annwyl Non Neave

**Ymweliad interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Hen Heol i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Hydref 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

## Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hŷn.

- Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion wrth gynllunio gwelliant yr ysgol. Trwy gynllunio gofalus, dysgu proffesiynol a gweithgareddau monitro, mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd fwy cyson at addysgu disgyblion sut i ddarllen ac ysgrifennu.
- Mae athrawon yn defnyddio mapiau medrau defnyddiol i gynllunio gwersi llythrennedd sy'n adeiladu'n systemig ar ei gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu hysgrifennu ar draws y genres.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth addas o seiniau llythrennau ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i ddarllen ac ysgrifennu geiriau syml. Wrth iddynt symud ymlaen, maent yn adeiladu ar hyn yn llwyddiannus i wneud cynigion argyhoeddiadol i sillafu geiriau anghyfarwydd.
- Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol sy'n eu helpu i ddadgodio geiriau anghyfarwydd, casglu ystyr a rhagweld beth sy'n digwydd nesaf.

- Mae athrawon yn annog disgyblion i ymarfer eu hysgrifennu ar lafar cyn dechrau ar dasgau ysgrifennu annibynnol. O ganlyniad, mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa ar gyfer effaith ddramatig yn eu hysgrifennu. Maent yn ysgrifennu ag aeddfedrwydd cynyddol, ac mae eu sillafu a'u hatalnodi yn gywir, ar y cyfan.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall strategaethau adborth a marcio'r ysgol. Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar adborth ysgrifenedig, asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn ymateb i ddisgyblion yn brydlon yn ystod gwersi, ac mae hyn yn eu galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau a chynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith.

### Cryfhau prosesau gwella'r ysgol i ganolbwyntio ar feysydd addysgu a dysgu penodol.

- Mae uwch arweinwyr yn cydweithio i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Mae ganddynt gynllun monitro, gwerthuso ac adolygu addas sy'n amlinellu ystod o weithgareddau monitro effeithiol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio gweithgareddau'n briodol ar fynd i'r afael â'r agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella fwyaf.
- Mae arweinwyr yn darparu cymorth buddiol ar gyfer staff i wella'u haddysgu trwy adolygu perfformiad rheolaidd a phwrpasol. Maent yn cydweithio â staff i nodi targedau perfformiad personoledig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a chyfrifoldebau unigol.
- Mae uwch arweinwyr yn trefnu darparwyr allanol i gyflwyno dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer athrawon. Mae hyfforddiant diweddar yn cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd a chysondeb addysgu, darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol. Mae gweithgareddau monitro'r ysgol yn nodi bod hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.
- Mae athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn rheolaidd. Mae deialog broffesiynol gydag uwch arweinwyr yn helpu bron pob un o'r staff i ddatblygu dealltwriaeth gywir o'r hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a'u camau nesaf mewn dysgu. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ar lefel briodol, er bod uwch arweinwyr yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf abl.
- Mae uwch arweinwyr wedi gweithio gyda staff i greu ymagwedd ar y cyd at asesu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion, gan nodi'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol / UCD a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/provider/6692159

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol